Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
CCERA(5) NDF(v2) 21
Ymateb gan Ymddiriedolaeth John Muir

Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
National Development Framework for Wales
CCERA(5) NDF(v2) 21
Evidence from The John Muir Trust

Rydym yn ysgrifennu atoch gan gyfeirio at ddrafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer gwaith sydd wedi'i roi gerbron Senedd Cymru i graffu arno am gyfnod o 60 diwrnod. Elusen gadwraeth yn y DU yw Ymddiriedolaeth John Muir sy'n ymroddedig i annog profiad, diogelu a chadwraeth ardaloedd gwyllt yng Nghymru, rdym wedi bod yn helpu i gysylltu pobl â'i hardaloedd gwyllt ers dros ugain mlynedd ac, o ganlyniad, yr ydym yn ymwybodol o arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwyllt Cymru a'u gwerth i bobl sy'n eu profi.

Mae gennym rai pryderon am y polisïau gofodol arfaethedig ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn drafft FfDC. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethol ynni adnewyddadwy o ran cyrraedd targedau allyriadau net Cymru, rydym yn pryderu bod rhai o'r polisïau fel y'u drafftiwyd yn peryglu gwerthoedd rhai o ardloedd gwyllt Cymru o gael datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer datblygu ynni adnewyddol. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd wedi'i adnabod fel ardal gyda potensial sylweddol o ran ynni adnewyddol. Mae Sir Ceredigion yng Nghanolbarth Cymru ac mae'n cynnwys mynyddoedd Cambria. Mae'r mynyddoedd hyn yn enghraifft o dirwedd ucheldir gwyllt, er nad ydyw wedi ei ddiogelu gan ddynodiad tirwedd swyddogol, mae’n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl sydd am brofi a mwynhau natur wyllt. Ar y map o Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar dudalen 79 o ddrafft FfDC D, mae’r adral yn cael ei nodi fel man poblogaidd ar gyfer gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau.

Fodd bynnag, ar y map ar dudalen 94 o ddrafft FfDC, mae'n ymddangos bod y mynyddoedd hyn yn gorgyffwrdd ag ardaloedd a aseswyd eisoes (3 a 4) ar gyfer datblygu ynni gwynt a gwres adnewyddol. Mae Polisi 17 fel y'i drafftiwyd yn nodi bod 'rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt a solar ar raddfa fawr yn yr ardaloedd hyn yn amodol ar feini prawf a amlinellir ym Pholisi 18. Nid yw'r meini prawf ym pholisi 18 yn sôn am rinweddau tir gwyllt a allai fod mewn perygl yn rhai o'r ardaloedd hyn a aseswyd o flaen llaw. Fodd bynnag, nodwn fod yr drafft yn nodi 'Beth bynnag fo'u lleoliad neu eu graddfa, rhaid i gynigion geisio lleihau effaith ar dirwedd a'r effaith weledol, yn enwedig y rheini sy'n agos at gartrefi ac ardaloedd twristiaeth. Dylid diogelu cumunedau o fewn a thu allan i ardaloedd rhag effeithiau sylweddol er mwyn osgoi sefyllfaoedd annerbyniol lle gallai aneddiadau llai, er enghraifft, gael eu hamgylchynu gan gynlluniau gwynt.'

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar ddrafft y Fframwaith mewn perthynas â Pholisïau 17 ac 18, roeddem o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol rhannu'r dull o ddiogelu tir gwyllt y mae'r weinyddiaeth ddatganoledig yn yr Alban wedi bod yn ei ddefnyddio dros y blynyddoedd diwethaf. Mae strategaeth datblygu gwynt ar y tir yn yr Alban, fel y nodir ym mholisi cynllunio presennol yr Alban, yn nodi lle mae datblygu adnewyddadwy ar y tir yn briodol rhaid eu hystyriad trwy y tri grŵp canlynol: Nid yw ardaloedd Grŵp 1 yn addas ar gyfer datblygu adnewyddadwy (mae hyn yn adlewyrchu rhagdybiaeth yn erbyn datblygu ynni adnewyddol ym Mharciau Cenedlaethol yr Alban ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol ac mae'n debyg i'r rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn yr Draft FfDC) , mae ardaloedd Grŵp 2 yn cael eu diogelu'n sylweddol, yn yr ardaloedd hyn gall datblygu adnewyddadwy ddigwydd mewn rhai amgylchiadau, a meysydd Grŵp 3 yw lle mae datblygiad yn debygol o fod yn dderbyniol.

Mae ardaloedd Grŵp 2 yn cynnwys Ardaloedd Tir Gwyllt yr Alban. Mae'r rhain yn ardaloedd y mae Llywodraeth yr Alban wedi'u nodi fel 'tirweddau mwy naturiol, anghysbell yn yr Alban, y mae eu cryfder a'u maint yn cael eu hystyried o bwysigrwydd cenedlaethol'. Mae rhinweddau Ardaloedd Tir Gwyllt yr Alban (fel pellter, garw, naturioldeb, absenoldeb arteffactau dynol) i'w gweld hefyd mewn rhannau o Gymru, mewn ardaloedd o fewn dynodiadau tirwedd presennol yn ogystal ag ardaloedd heb ddynodiad, fel Mynyddoedd Cambria. O gymharu ein gwaith mapio tir gwyllt ar gyfer Cymru, â'r Ardaloedd y nodwyd yn nrafft FfDC fel rhai sydd â photensial ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, mae tir gwyllt yn ymddangos o fewn Ardaloedd 4, 5, 6 ac 8.

Awgrymwn bod y Pwyllgor yn ystyried sut y mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yr Alban wedi cydnabod Ardaloedd Tir Gwyllt fel ardaloedd o bwysigrwydd cenedlaethol ac wedi adlewyrchu'r gydnabyddiaeth hon yn ei strategaeth ar y tir ym mholisi Cynllunio'r Alban drwy gynnwys Grŵp 2. Mae'r dull hwn yn cynnig model i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella y drafft o’r FfDC gan ddatblygu canllawiau ar gyfer penderfynu a ddylai caniatau datblygiad sydd y tu allan i ddynodiad cenedlaethol ond mewn ardal gyfoethog o ran tirwedd ai peidio.

Byddem yn croesawu cyfle i drafod ein hawgrymiadau gyda chi pe bai hyn o unrhyw ddefnydd. Mae croeso i chi gysylltu â mi drwy e-bost os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech i ni rannu rhagor o wybodaeth.